

Mawrth 2016

Ymddiried mewn dŵr

Blaenraglen Ofwat 2016-17

www.ofwat.gov.uk

ofwat

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein blaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae ein rhaglen waith wedi'i chynllunio i'n cynorthwyo i gyflawni ein strategaeth, 'Hyder mewn dŵr'.

Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu newidiadau ers, ac o ganlyniad i, ein hymgyngoriad ar ein blaenraglen ddrafft ar gyfer 2016-17. Cynhaliom yr ymgynghoriad rhwng 3 Chwefror ac 17 Chwefror 2016.

Ein strategaeth yw'r cyfrwng a ddefnyddiwn i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Rydym hefyd yn cyflawni ein swyddogaethau perthnasol yn unol â'r datganiadau o flaenoriaethau ac amcanion strategol yr ydym yn eu derbyn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

O dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), mae dyletswydd arnom i ymgynghori ar, a chyhoeddi, ein blaenraglen cyn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Mae gwybodaeth bellach i'w chael ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Cynnwys

Rhagair	3
1. Trosolwg 2016 -17	7
2. Dyddiadau allweddol	19
3. Rhaglenni	24
4. Ariannu cyflawniad ein rhaglen waith	36

Atodiad 1: Lleihau beichiau rheoleiddiol

Atodiad 2: Sut mae ein gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth a chanllawiau cymdeithasol ac amgylcheddol

Rhagair

Croeso i'n blaenraglen derfynol ar gyfer 2016-17. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ein strategaeth uchelgeisiol, 'Hyder mewn dŵr'. Mae cynnal y momentwm hwnnw'n hollbwysig. Dros y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau yn y meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf. Rydym yn parhau i fod wedi canolbwyntio ar gyflawni ein dyletswyddau, yn cynnwys dyletswydd glir i gwsmeriaid.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr yn glir: sicrhau ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig y mae'r sector yn eu darparu. Mae hon yn dasg uchelgeisiol a chymhleth. Mae'n gofyn bod pawb yn y sector yn chwarae ei ran, a bydd yn cymryd amser i'w chyflawni.

Mae'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu er mwyn cynnal a meithrin ymddiriedaeth a hyder yn dod yn fwy cymhleth. Hefyd, fel y gwyddom, mae'n rhaid i bawb ohonom ddod o hyd i ffyrdd gwell a chraffach o wneud mwy am lai - gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae cwsmeriaid - a chymdeithas yn fwy cyffredinol - angen i'r sector ymateb a chymryd perchnogaeth am y gwasanaethau y mae'n eu darparu. A'i fod yn parhau'n effro i anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd, yn ogystal â pharhau i'w gwneud hi'n ofynnol i gael buddsoddiad mewn gwelliannau hollbwysig i wasanaethau. Mae tystiolaeth glir o ymwybyddiaeth gynyddol yn y sector bod yn rhaid i bawb sydd â budd yn y gwasanaethau hynny weithio gyda'i gilydd i'w datblygu.

Rhaid i ni chwarae ein rhan yn hyn o beth. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ers i ni lansio ein strategaeth newydd ar ddechrau 2015. Mae hyn yn cynnwys:

- nodi ein cynigion rhaglen Water 2020, sydd wedi'u bwriadu i helpu'r sector i gyflawni ar gyfer ei gwsmeriaid yn wyneb heriau'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys nodi ein cynigion ar gyfer gwell defnydd o farchnadoedd, esblygu ymhellach ein fframwaith rheoleiddio, ac ymgysylltu'n gryf yn y sector a thu hwnt.
- gweithio gyda'r sector i wella'r sut y mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau datblygwyr yn gweithredu;
- sefydlu a gwreiddio ein rheolaeth o'r rhaglen Open Water er mwyn rhoi dewis ym mis Ebrill 2017 i gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.
- sefydlu fframweithiau er mwyn gwneud yn siŵr fod cwmnïau dŵr yn cael eu dal yn atebol am eu perfformiad a'u gwytnwch - yn cynnwys eu gwytnwch corfforaethol ac ariannol - heddiw a dros y tymor hwy.

- gwneud cynnydd rhagorol mewn datrys ein gwaith achos strategol, a sefydlu ein cylchlythyr 'OnTheCase' fel modd gwerthfawr o gyfathrebu ein penderfyniadau a'r prif bwyntiau sy'n dod i'r amlwg.
- gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU a Thames Water i roi gwerth am arian i gwsmeriaid drwy gaffael yn gystadleuol y Darparwr Seilwaith a fydd yn cyflawni Twnnel Thames Tideway; a
- lansio adroddiad a groesawir yn eang ynglŷn â fforddiadwyedd yn y sector.

Yn y ddogfen hon amlinellwn y gwaith y bwriadwn ei wneud dros y 12 mis nesaf. Mae'n bortffolio uchelgeisiol: mae'n adlewyrchu ein strategaeth ac yn adeiladu ar y momentwm a sefydlwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae wedi'i deilwra'n ofalus i fod yn un y gellir ei gyflawni. Byddwn yn parhau i adolygu'r portffolio wrth i ni fynd drwy'r flwyddyn ac yn ail-flaenoriaethu os bydd angen. Yn y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn:

- gwneud ein cynigion terfynol ar gyfer marchnadoedd masnachu dŵr a marchnadoedd ar gyfer trin a gwaredu slwtsh, a'r goblygiadau ar gyfer rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys nodi sut y bydd y newidiadau hyn yn helpu i roi arbedion effeithlonrwydd, gwelliannau amgylcheddol a mwy o wytnwch;
- nodi mewn rhagor o fanylder sut y bwriadwn ddiogelu cwsmeriaid drwy ein hadolygiad prisiau nesaf yn 2019. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr argymhellion yn adroddiadau diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus;
- cynnal gwaith hollbwysig, ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, [Market Operator Services Ltd \(MOSL\)](#) a chwmnïau dŵr, er mwyn sicrhau bod dewis ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector preifat cymwys yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus ym mis Ebrill 2017;
- mireinio a datblygu ein gwaith ar fframweithiau monitro, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu asesu perfformiad a gwytnwch cwmnïau, fel ein bod yn deall nawr unrhyw risgiau i gyflenwi yn y dyfodol, gan ein galluogi i barhau gyda dull cymesur ac wedi'i dargedu ar gyfer ymyriadau.
- gwneud yn siŵr y bydd ein polisiâu a'n prosesau gwaith achos yn cefnogi cyflawniad canlyniadau da i gwsmeriaid o ganlyniad i roi dewis i gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys ym mis Ebrill 2017;
- parhau i weithio er mwyn sicrhau bod cwmnïau dŵr yn deall ac yn cyflawni yn unol ag anghenion datblygwyr; a
- pharhau gyda'n gwaith ar brosiect Twnnel Thames Tideway er mwyn sicrhau gwerth da i gwsmeriaid.

Wrth i ni ddatblygu'r gwaith hwn, roeddem hefyd eisiau adeiladu ar y manteision sylweddol rydym wedi eu gweld yn y flwyddyn ddiwethaf o newid yn sut yr ydym yn gweithio gyda'r sector, grwpiau cwsmeriaid, cyrff anllywodraethol, buddsoddwyr ac eraill. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- ymgysylltu'n eang er mwyn helpu i lywio ein ffordd o feddwl a chasglu tystiolaeth ar gyfer ein cynigion ar gyfer [marchnadoedd y dyfodol a gosod terfynau prisiau erbyn 2020](#), yn cynnwys cyfraniadau gan y sector i 'farchnad syniadau' a gynhelir gan Water UK;
- gwaith y [Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol](#), a gyfrannodd at y mewnwelediad a'r heriau adeiladol o ran agwedd y sector a'n hagwedd ni tuag at wytnwch;
- darparu penderfyniadau allweddol a dogfennau gan y rheini sy'n gysylltiedig â [rhaglen Open Water](#) – yn cynnwys sefydlu MOSL – er mwyn cefnogi agor y farchnad manwerthu ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr i gystadleuaeth ym mis Ebrill 2017; a
- gweithio gyda rheoleiddwyr eraill drwy [Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU \(UKRN\)](#) ar feysydd sydd o ddiddordeb cyffredin rhwng gwahanol sectorau er budd defnyddwyr a'r economi.

Rydym hefyd wedi gwneud camau breision tuag at ein gweledigaeth ar gyfer Ofwat fel rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo ac a berchir, gan weithio'n flaengar, herio ein hunain ac eraill er mwyn meithrin ymddiriedaeth mewn dŵr. Er enghraifft, rydym wedi gweithredu dulliau mwy cymesur ac wedi'u targedu ar gyfer monitro perfformiad a sicrwydd cwmnïau sy'n annog cwmnïau i gymryd perchnogaeth am eu perfformiad ac adrodd arno i gwsmeriaid, i ni ac i eraill. Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i sut yr ydym yn gweithredu er mwyn rhoi hyder i'n rhanddeiliaid ein bod yn gweithio mewn modd seiliedig ar egwyddorion a chymesur sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian. Mae'n ein dull ar gyfer rheoleiddio ynddo'i hun wedi bod yn arloesol, a bydd yn parhau i ysgogi arloesedd yn y sector.

Rydym yn ddiolchgar i'r gwaith a wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) ar ein rheoleiddiad o'r sector dŵr yn ystod 2015. Roedd yr NAO yn cydnabod y newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n dull rheoleiddio - er enghraifft, drwy adolygiad prisiau 2014 a sut yr ydym yn adeiladu ar hyn wrth i ni ddatblygu ein dull ar gyfer adolygiad prisiau 2019 ac agweddau eraill ar ein rheoleiddio. Bydd ein gwaith eleni - yn arbennig drwy'r rhaglen Water 2020 - yn ystyried argymhellion yr NAO a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn cynnwys mewn perthynas â chyfrifo cost cyfalaf a rhannu allberfformio.

Rydym yn gweithredu o fewn y fframweithiau polisi a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Dros y flwyddyn nesaf efallai y bydd newidiadau i'r ddau fframwaith. Mae hyn yn cynnwys datganoli pellach posibl pwerau ar ddŵr a dŵr gwastraff i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n agos ac yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill ar y mater hwn.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn hefyd yn datblygu gwaith i adeiladu ar ein gallu ni ein hunain i gyflawni yn unol â'n strategaeth. Ar ddechrau'r flwyddyn hon bydd gennym aelodau Bwrdd anweithredol a gweithredol newydd, a bydd ein Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi'i gryfhau. Byddwn yn datblygu ein swyddogaethau sganio'r gorwel a rheoli portffolio. Byddwn yn cynnal gwaith pellach i sicrhau bod ein technoleg a'n seilwaith yn cefnogi ein ffyrdd o weithio yn y modd gorau. Byddwn hefyd yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd y mae UKRN yn eu cynnig i ddysgu gan eraill, gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a gweithio ar y cyd lle bo hynny'n briodol.

Gyda'n gilydd gallwn sicrhau hyder mewn dŵr. Edrychwn ymlaen hefyd at barhau'r gwaith a'r trafodaethau cynhyrchiol yr ydym wedi eu cael gyda chymaint o rai sydd â diddordeb dros y flwyddyn ddiwethaf, ynglŷn â'n gwaith ein hunain ac wrth gyfrannu at waith eraill.



Jonson Cox
Cadeirydd



Cathryn Ross
Prif Weithredwr

1. Trosolwg 2016 -17

Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn hollbwysig ar gyfer iechyd y cyhoedd, ein heconomi a chymdeithas. Ledled Cymru a Lloegr rydym yn dibynnu arnynt bob dydd. Ers preifateiddio ym 1989, mae'r sector dŵr wedi helpu i sicrhau gwelliannau enfawr yn ansawdd y gwasanaethau hynny - megis gwneud ein dŵr yfed ymhlith y gorau yn Ewrop. Fodd bynnag, mae disgwyliadau'n codi drwy'r amser - yn arbennig o ran gwasanaeth cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd - ac mae angen gwella perfformiad yn barhaus. Ar yr un pryd, mae'r sector yn wynebu heriau gwirioneddol. Er enghraifft:

- rhagwelir y bydd ein poblogaeth yn codi gan 20% dros y 20 mlynedd nesaf, llawer ohono mewn ardaloedd sychach megis de a de ddwyrain Lloegr;
- nid yw pedwar o bob pum corff dŵr yn cyrraedd y safonau amgylcheddol priodol;
- mae newid hinsawdd yn arwain at fwy o ddigwyddiadau tywydd, yn cynnwys sychder a llifogydd difrifol, a'r rheini'n fwy eithafol.
- mae angen i wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff a'r systemau sy'n sail iddynt - megis systemau ariannol ac ecosystemau - fod yn wydn, i allu rhagweld tueddiadau, a gallu gwrthsefyll ac adfer o siociau nawr ac yn y dyfodol; ac
- er y bydd biliau dŵr a dŵr gwastraff ar gyfartaledd yn lleihau gan 5% mewn termau real erbyn 2020, nid yw un o bob pum cwsmer yn meddwl bod eu bil yn fforddiadwy.

Os yw cwsmeriaid a chymdeithas i barhau i fod ag ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig hyn, mae angen i'r modd y mae'r sector yn eu cyflenwi esblygu, ac mae angen i'n rheoleiddio ni o'r sector lywio, galluogi ac ysgogi'r esblygiad hwn.

1.1 Ein blaenoriaethau

Rydym wedi nodi nifer o feysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf ar gyfer cwsmeriaid yn 2016-17. Rydym yn nodi'r rhain isod. Rydym yn adolygu ein blaenoriaethau bob blwyddyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r manteision gorau posibl i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r adnoddau sydd gennym ar gael.

Blaenoriaethau strategol Ofwat 2016-17

1. Gweithio i sicrhau bod marchnadoedd yn rhoi budd gwirioneddol i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas. Bydd hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, cwmnïau dŵr yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod rheoleiddio yn cefnogi datblygiad effeithiol taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau;
- gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Market Operator Services Limited (MOSL), i roi ar waith – fel y nodir yn Neddf Dŵr 2014 – y trefniadau ar gyfer agor y farchnad manwerthu i gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ym mis Ebrill 2017 mewn modd sy'n sicrhau budd i gwsmeriaid;
- cwblhau ein hadolygiad, yn dilyn cais gan Lywodraeth y DU, o gost a budd ymestyn dewis i gwsmeriaid preswyl yn Lloegr; a
- pharhau gyda'n gwaith fel rhan o raglen Water 2020 ynglŷn ag a ddylai, a sut y gall, marchnadoedd ar gyfer adnoddau dŵr a thrin a gwaredu slwtsh yng Nghymru a Lloegr helpu'r sector i ddod yn fwy effeithlon a mwy cynaliadwy. Byddwn yn parhau ein gwaith gyda'r sector i wella gwasanaethau datblygwyr. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi gwaith Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddiwygio echdynnu dŵr.

2. Gwella gwybodaeth ac atebolrwydd Byddwn yn datblygu ymhellach ein pecyn cymorth er mwyn monitro perfformiad a gwytnwch y sector, gan wneud yn siŵr bod hyn yn ein galluogi i ddal y sector yn atebol ac yn llywio ein hymyriadau - ac yn galluogi'r sector i ymateb ac i eraill ei ddwyn i gyfrif. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ein fframweithiau adrodd a sicrwydd. Mae hefyd yn cynnwys cyhoeddi ein hasesiad o'r ddibyniaeth y gellir ei roi ar sicrwydd cwmnïau yn seiliedig ar ansawdd y wybodaeth y maent yn ei darparu i ni a'r wybodaeth arall sydd gennym. Byddwn yn nodi sut y bydd y rhain yn llywio'r modd yr ydym yn asesu cynlluniau busnes cwmnïau yn adolygiad prisiau 2019. Byddwn yn gweithio gyda Water UK wrth iddo barhau i ddatblygu ei ddangosfwrdd, gan helpu i sicrhau ei fod yn caniatáu i gwsmeriaid a chymdeithas weld sut mae'r sector yn perfformio mewn perthynas â'r hyn sy'n bwysig ar gyfer ymddiriedaeth a hyder.

3. Cynnal hyder cwsmeriaid drwy gyfnod o newid. Rydym yn cydnabod y newidiadau sy'n dod yn y sector ac i'r modd yr ydym yn ei reoleiddio, a byddwn yn gwneud yn siŵr bod darparwyr gwasanaeth ac eraill ar draws y sector - yn ein cynnwys ni fel y rheoleiddiwr - yn cynnal hyder cwsmeriaid mewn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig hyn. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod y newidiadau yn y sector yn rhoi budd amlwg i gwsmeriaid, nawr ac yn yr hirdymor.

4. Cynnal hyder buddsoddwyr yn y sector drwy gyfnod o newid. Rydym yn cydnabod y newidiadau a ddaw i'r sector yn sgil Deddf Dŵr 2014 ac o bosibl datganoli cymhwysedd pellach mewn perthynas â dŵr a dŵr gwastraff i Lywodraeth Cymru a'r modd yr ydym yn ei reoleiddio er budd cwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod hwn o newid, mae angen i ni barhau i gynnal hyder buddsoddwyr yn y sector a'r fframwaith rheoleiddio economaidd.

Mae hyn yn cynnwys parhau i gyflawni ein dyletswydd arianadwyedd statudol, i sicrhau y gall cwmnïau effeithlon gael mynediad at farchnadoedd cyfalaf.

5. Sicrhau bod gan Ofwat y sgiliau, profiad, systemau, prosesau a'r diwylliant sy'n cefnogi ein strategaeth newydd. Byddwn yn datblygu'r bobl, y seilwaith a'r drefn lywodraethu i gyflawni'r strategaeth a'r weledigaeth newydd ar gyfer y sector. Byddwn hefyd yn datblygu'r offer, y wybodaeth a'r dulliau ar gyfer rheoleiddio sydd eu hangen arnom i gyflawni ein dyletswyddau yn effeithlon, effeithiol ac yn defnyddio arfer gorau ym maes rheoleiddio. Canolbwynt penodol eleni fydd ar ddatblygu ein model cyflenwi ar gyfer adolygiad prisiau 2019 a gwneud yn siŵr bod gennym y galluedd sydd eu hangen.

1.2 Gwella sut yr ydym yn rheoleiddio

Mae rheoleiddio economaidd effeithiol yn darparu fframwaith sy'n cyfateb buddiannau cwmnïau a'u buddsoddwyr gyda rhai cwsmeriaid, fel bod rheolwyr cwmnïau a buddsoddwyr yn elwa pan fydd cwmnïau'n gwneud mwy o'r hyn y mae cwsmeriaid am iddynt ei wneud. Mae hyn yn creu gwerth ar gyfer pawb oherwydd:

- mae cwsmeriaid yn cael y gwasanaethau y maent eu heisiau am y pris y maent yn barod i'w dalu;
- mae rheolwyr yn cael mwy o ryddid i arwain ac arloesi; ac
- mae buddsoddwyr yn gwneud gwell elw.

Rhoddodd y model rheoleiddio y gwnaethom ei ddefnyddio o adeg preifateiddio fanteision gwych. Hwylusodd y buddsoddiad oedd ei angen yn fawr ar y sector, er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid ac ansawdd amgylcheddol. Cododd safonau gwasanaeth cwsmeriaid, a hefyd lleihau costau. Fodd bynnag, mae'n bwysig i reoleiddwyr herio eu hunain er mwyn gwneud yn siŵr bod eu dulliau'n parhau i gyflawni popeth y gallant i gwsmeriaid a chymdeithas.

Rydym yn cydnabod bod y sector yn wynebu heriau difrifol o ran parhau i ddarparu'r gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff y mae cwsmeriaid a chymdeithas yn eu disgwyl, am bris fforddiadwy. Os yw'r sector yn mynd i ymateb yn llwyddiannus i'r heriau hynny, rhaid iddo ddod yn fwy effeithlon - rhaid iddo allu gwneud mwy gyda llai. Rydym hefyd yn cydnabod nad ein dull rheoleiddio traddodiadol oedd y gorau i helpu'r sector i ymateb i'r heriau hynny. Roedd gwerth ein her arbedion effeithlonrwydd gan ddefnyddio rheoleiddio cymharol wedi bod yn gostwng dros amser - o £39 oddi ar y bil cyfartalog yn adolygiad prisiau 1999 i £11 yn adolygiad prisiau 2009. Roedd angen i ni wneud mwy i lywio, galluogi ac ysgogi'r sector i sefydlu meysydd newydd, yn arbennig drwy wneud gwell defnydd o adnoddau prin a thrwy arloesi.

Gan gofio hyn, mae gennym nawr ddull rheoleiddio seiliedig ar egwyddorion sy'n ein gweld ni'n:

- canolbwyntio ar y pethau sy'n wirioneddol bwysig i gwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach nawr ac yn y dyfodol ('canolbwyntio ar ganlyniadau');
- annog cwmnïau i ymateb a chymryd cyfrifoldeb am eu perthynas - yn arbennig gyda'u cwsmeriaid - gan fod yn onest, teg a thryloyw ('canolbwyntio ar berthynas');
- parhau i ddefnyddio ein hoffer traddodiadol (rheolaethau prisiau, penderfyniadau, trwyddedu a gorfodi), ond hefyd offer ehangach i daflu goleuni ar faterion sy'n ysgogi trafodaeth ('defnyddio ein holl offer');
- gwneud gwell defnydd o fecanweithiau marchnad er mwyn galluogi prynwyr i gwrdd â gwerthwyr ac i drafodion ddigwydd, lle mae'n effeithlon i hyn ddigwydd ('o blaid y farchnad'); a
- chanolbwyntio ein hymyrraeth reoleiddio lle mae mwyaf ei hangen ('cymesur ac wedi'i dargedu').

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi defnyddio ein dull rheoleiddio i weithio gydag eraill i (ymhlith pethau eraill):

- gynllunio cynigion ein rhaglen Water 2020 er mwyn helpu'r sector i gyflawni ar gyfer ei gwsmeriaid yn wyneb heriau'r dyfodol;
- rheoli'r rhaglen Open Water er mwyn darparu marchnad manwerthu ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus ym mis Ebrill 2017, gan gynnwys cwblhau darnau allweddol o waith megis ein cynigion ar gyfer diogelu cwsmeriaid; a
- sefydlu fframweithiau er mwyn gwneud yn siŵr bod cwmnïau'n cael eu dal yn atebol am eu perfformiad - ac am eu gwytnwch corfforaethol ac ariannol.

Wth gyflawni ein gwaith dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn helpu ac yn annog y sector dŵr i ymateb a'n sicrhau ei fod yn cyflawni canlyniadau da ac yn meithrin cysylltiadau cryf. Pan fydd cwmnïau'n methu gwneud hyn, byddwn yn camu i mewn er mwyn diogelu cwsmeriaid.

Mae hefyd yn bwysig i ni ddeall a rhoi ystyriaeth i oblygiadau'r gwahanol fframweithiau polisi yng Nghymru a Lloegr, a blaenoriaethau perthynol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

1.3 Gwella sut yr ydym yn gweithio

Er mwyn cyflawni ein strategaeth, bydd sut yr ydym yn gweithio, y modd yr ydym yn ymddwyn a'r gwerthoedd yr ydym yn byw wrthynt yr un mor bwysig â'r gwaith yr ydym yn ei wneud. Ein gweledigaeth yw enyn ymddiriedaeth a pharch, gweithio'n

flaengar a herio ein hunain ac eraill er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.

Yn ystod 2015-16 gwnaethom barhau i wella ein gallu yn unol â'n strategaeth newydd. Roedd hyn yn cynnwys:

- rhoi strwythurau a phrosesau cliriach ar waith er mwyn gwella'r penderfyniadau a wnawn;
- cryfhau ein dulliau ar gyfer rheoli rhaglen a chynllunio i wella'r budd a roddir i gwsmeriaid;
- lleihau ein gofod swyddfa yn Birmingham a gweithredu amgylchedd gweithio cynllun agored, hyblyg newydd er mwyn rhoi gwell gwerth am arian a chefnogi ein ffyrdd newydd o weithio.
- gweithredu ein dull newydd ar gyfer rheoli, caffael a chadw talent er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn denu ac yn cadw'r bobl iawn; a
- lansio gwefan gorfforaethol newydd er mwyn cyfathrebu'n well gyda chwsmeriaid, cwmnïau, buddsoddwyr ac eraill, a gweithio mwy ar y cyd.

Dros y flwyddyn nesaf bwriadwn wreiddio nifer o'r newidiadau hyn a gwneud gwelliannau pellach i sut yr ydym yn gweithio drwy ein rhaglenni ar:

- Strategaeth a Chynllunio;
- Trawsnewid Busnes; a
- Cydymffurfriad a Sicrwydd.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglenni hyn i'w chael ar dudalennau 23, 32 a 33.

1.4 Rhoi gwerth am arian

Ein nod yw gwneud ein holl waith yn effeithlon ac effeithiol. O 2015-16 ymlaen gwnaed Ofwat yn rhan o Adolygiad Gwario Cynhwysfawr (CSR) Llywodraeth y DU. Mae Trysorlys EM wedi cadarnhau setliad CSR Ofwat ar gyfer 2016-17 hyd 2019-20.

Yn unol â'r setliad a gytunwyd gyda Thrysorlys EM, rydym yn rhagweld mai £22.5 miliwn fydd ein ffi trwydded craidd ar gyfer 2016-17. Byddwn hefyd yn adennill ymhellach:

- £1 miliwn o'n gwaith ar Dwnnel Thames Tideway; ac
- £1.97 miliwn ar gyfer agor y farchnad ddŵr manwerthu newydd ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys ym mis Ebrill 2017.

Ariennir gwaith yn y meysydd hyn o ffioedd trwydded ar wahân, sydd wedi'u neilltuo, a adenillir gan y cwmnïau hynny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y gwaith hwn.

Mae'r cynnydd a wnaed gennym yn 2015-16 wedi ein helpu i weithio mewn ffyrdd mwy hyblyg a lleihau ein costau. Er enghraifft, rydym wedi cryfhau ein dulliau corfforaethol ar gyfer trefn lywodraethu a rheoli rhaglenni - a lleihau ein gofod swyddfa yn Birmingham gan dros 50%.

Byddwn yn parhau i geisio arbedion effeithlonrwydd wrth gyflawni ein gwaith a sicrhau gwerth hyd yn oed yn well am arian. Mae hyn yn cynnwys:

- archwilio cyfleoedd i weithio ar y cyd ac yn fwy hyblyg gyda rheoleiddwyr eraill, yn cynnwys drwy UKRN;
- cynnal astudiaeth gyda rhai o aelodau UKRN yn edrych ar sut y gallem rannu gwasanaethau cefnogi yn y dyfodol; a
- lleihau ein gofod swyddfa yn Llundain.

Gweler tudalen 35 am ragor o wybodaeth.

1.5 Rheoli risgiau a chyfleoedd

Er mwyn cyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus mae angen i ni nodi a deall risgiau a chyfleoedd - a'u rheoli'n rhagweithiol, effeithiol a chymesur. Rydym wedi seilio ein fframwaith risg a chyfleoedd ar yr egwyddor bod gan bawb yn Ofwat gyfrifoldeb i nodi a rheoli risg a chyfleoedd mewn modd sy'n adlewyrchu ein strategaeth.

Yn ystod 2016-17 bwriadwn asesu ein blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd yn erbyn y canlynol:

- gwerth ehangach i gwsmeriaid a chymdeithas - yn cynnwys effeithiau economaidd a chymdeithasol;
- effaith ar reoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill;
- effaith uniongyrchol ar ein gwaith; ac
- effaith ar ein hadnoddau yn y dyfodol.

Bydd hyn yn gwella ymhellach gysondeb risgiau a chyfleoedd ar draws ein rhaglenni ac o fewn prosiectau unigol. Bydd hefyd yn ein helpu i adolygu ein cynnydd o ran cyflawni ein rhaglenni a chaniatáu i ni aildrefnu, ail-flaenoriaethu neu ailystyried sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith a rhoi'r budd gorau posibl i gwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach drwy gydol y flwyddyn. Byddwn yn cefnogi ein gwaith ar reoli risg a chyfleoedd gyda gwaith arall er mwyn datblygu ein gwaith sganio'r gorwel a'n diffiniad o fanteision strategol.

1.6 Mesur cynnydd

Yn ystod 2015-16 buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys rheoleiddwyr eraill y sector dŵr, i ddatblygu fframwaith asesu a dangosfyrdau perfformiad ar gyfer monitro cynnydd y mae'r sector yn ei wneud tuag at y weledigaeth sydd gennym ar ei gyfer. Rydym yn falch bod Water UK wedi cytuno i gymryd cyfrifoldeb am y fframwaith hwn ar ran y sector. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Water UK i ddatblygu'r fframwaith yn unol â'r nifer o'r newidiadau sy'n amlygu yn y sector. Bydd Water UK yn rhannu camau nesaf y gwaith hwn yn y misoedd sydd i ddod.

Gwnaethom hefyd ddatblygu fframwaith i'n galluogi i fonitro ein cynnydd ein hunain tuag at ein gweledigaeth ar gyfer Ofwat. Mae hyn yn ein helpu i fonitro'r manteision yr ydym yn eu rhoi fel rhan o'n rhaglen waith. Bydd hefyd yn helpu i wella'r sgysiau yr ydym yn eu cael a'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda phartneriaid strategol a rhanddeiliaid eraill mewn sicrhau ymddiriedaeth mewn dŵr, gan gydnabod na all Ofwat gyflawni'r gwaith hwn ar ei ben ei hun. Mae hyn yn cael ei ddatblygu; byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ynglŷn â'n fframwaith asesu yn ystod 2016-17. Byddwn yn darparu diweddariadau am ein cynnydd bob chwarter blwyddyn yn ystod 2016-17 yn ogystal ag adrodd yn ffurfiol ar ein perfformiad yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon.

1.7 Annog arloesedd

Mae ein dull ar gyfer rheoleiddio a rheoleiddio'r sector yn arloesol yn y modd y mae wedi annog cwmnïau i fod yn atebol am eu perthynas gyda'u cwsmeriaid. Mae hyn yn ei dro wedi ysgogi arloesedd yn y sector, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfer cwsmeriaid, y gymdeithas ehangach, yr amgylchedd a'r economi.

Yn y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector ac eraill yn fwy eang i hyrwyddo a hwyluso ffyrdd arloesol o feddwl a chyflawni, a fydd yn helpu'r sector i fodloni heriau'r dyfodol a pharhau i ddarparu gwasanaethau yn unol â disgwyliadau cwsmeriaid a chymdeithas.

1.8 Gweithio gydag eraill a newidiadau posibl i'n gwaith

Mae ein strategaeth - a'n rhaglen waith - yn dibynnu ar fod y sector a chwmnïau unigol yr ydym yn eu rheoleiddio yn ymateb a chymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am roi canlyniadau sy'n bwysig i gwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach. Ar yr un pryd, rydym hefyd yn dibynnu ar waith ac ymgysylltiad ein rhanddeiliaid.

Pan na fydd y sector yn ymateb, byddwn ni'n camu i mewn i ddiogelu cwsmeriaid - a gall hyn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ail-flaenoriaethu'r hyn a wnawn. Ac os bydd gwaith ac ymgysylltiad gan eraill yn newid, efallai y bydd angen i ni newid beth, sut a phryd y byddwn yn cyflawni ein gwaith ni ein hunain.

Bwriedir i'r gwaith yr ydym wedi ei nodi yn y ddogfen hon roi'r wybodaeth orau bosibl i'n rhanddeiliaid ynglŷn â'n cynlluniau. Fodd bynnag, mae gennym strategaeth uchelgeisiol a chyllideb gyfyngedig. Felly mae angen i ni allu gweithio'n hyblyg ac ail-flaenoriaethu drwy gydol y flwyddyn. Er ein bod yn cynllunio ar sail profiad blaenorol a'n dealltwriaeth o sut y bydd ein tirwedd yn esblygu yn y dyfodol, mae nifer o ffactorau allanol a all olygu bod angen i ni wneud mwy neu lai o waith nac yr ydym yn ei ragweld ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys y gwaith yr ydym yn dibynnu ar eraill i'w gyflawni, a allai effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i ni a'r gwaith yr ydym ni'n gallu ei wneud - er enghraifft:

- y gwaith a ariennir gan Water UK ar ddangosfwrdd y sector; a'r
- cyfraniadau i'n rhaglen Water 2020 ac adolygiad o gystadleuaeth preswyl ar gyfer Llywodraeth y DU drwy'r farchnad syniadau.

Fel enghraifft bellach, mae gofyn i ni wneud mathau arbennig o waith achos - trwyddedu, ymchwiliadau, achosion gorfodi ac anghydfodau. Nid ydym wedi cynnwys y gwaith hwn yn benodol yn y flaenraglen hon gan na allwn ragweld ei natur na'i swm. Rydym wedi darparu ar ei gyfer yn ein cynllunio adnoddau; i'r graddau bod y gwaith achos a dderbynnir gennym yn wahanol i'r tybiaethau, gall hyn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer ein gwaith arall.

Yn ystod 2015-16 buom yn llwyddiannus o ran profi ein dull. Er enghraifft, roeddem yn gallu symud adnoddau er mwyn dechrau gwaith ar astudiaeth i fudd a chost cystadleuaeth manwerthu preswyl yn Lloegr pan ofynnodd Llywodraeth y DU i ni edrych ar y pwnc hwn. Rydym hefyd wedi gallu ymateb mewn modd ystwyth a hyblyg i'r syniadaeth y mae'r sector wedi'u cyfrannu i'n rhaglen Water 2020, gan adeiladu ar syniadau ac osgoi dyblygu.

Rydym yn gweithredu o fewn y polisi fframwaith cyffredinol y gwnaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ei osod ar gyfer y sector. Dros y flwyddyn sydd i ddod, gallai nifer o ffactorau newid ein cynlluniau.

- Cynhelir etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Yn dilyn yr etholiad efallai y bydd peth newid i flaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Dŵr i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015. Nodir y cyfeiriad polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ei Ddatganiad Polisi Strategol (SPS) i Ofwat.
- Nid oes deddfwriaeth wedi'i datblygu hyd yma ar [argymhellion y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru](#), a gadeiriwyd gan Paul Silk ('Comisiwn Silk'). Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys y canlynol.
 - Dylai'r ffin ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff gyfateb i'r ffin genedlaethol.
 - Dylai pwerau am ddŵr gwastraff gael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
 - Dylai pwerau deddfwriaethol a gweithredol yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd yn y sector dŵr gael eu dileu a'u disodli gyda phrotocol rhynglywodraethol ffurfiol mewn perthynas â materion trawsffiniol.
- Blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer rheoleiddio a chystadleuaeth yn deillio o'r [Bil Menter drafft](#) a '[A better deal: boosting competition to bring down bills for families and firms](#)' – a'i chynlluniau hirdymor ar gyfer gwella'r amgylchedd.
- Cynlluniau Llywodraeth y DU i ddiwygio ei SPS i Ofwat. Ac, fel yr amlinellir uchod, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi ei SPS ei hun am y tro cyntaf. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i weithredu'n unol â datganiadau polisi strategol y ddwy Lywodraeth.
- Yn 2014 pasiodd Senedd y DU Ddeddf Dŵr 2014. Rhaid i wahanol rannau'r Ddeddf nawr gael eu pasio'n ffurfiol yn gyfraith (cael eu 'cychwyn') cyn y gellir eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys deddfau angenrheidiol er mwyn gweithredu marchnad i alluogi cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Lloegr - a chwsmeriaid cymwys yng Nghymru - i ddewis eu darparwr gwasanaeth dŵr a dŵr gwastraff. Rydym ni ac eraill sy'n gysylltiedig yn y rhaglen Open Water yn disgwyl i'r farchnad yn Lloegr agor i gystadleuaeth ym mis Ebrill 2017. Fodd bynnag, amseriad cychwyn rhannau penodol Deddf Dŵr 2014 fydd yn penderfynu ar raddfa a chyflymder ein rhaglen Agor y Farchnad Manwerthu yn arbennig, a gall gael effaith ar ein rhaglenni eraill megis Gwaith Achos.
- Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried adroddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg a allai olygu newidiadau i safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i sefydliadau sector cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru - yn cynnwys Ofwat.

Fel adran llywodraeth anweinidogol, rydym hefyd yn gweithredu o fewn yr atebolrwyddau, rheolau a rheolaethau sy'n berthnasol i bob adran llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

- rheolaethau tâl sector cyhoeddus;
- ystod o reolaethau gwario Swyddfa Cabinet; a
- gofynion 'Rheoli Arian Cyhoeddus' Trysorlys EM.

Gall y modd y caiff y rheolaethau hyn eu cymhwyso effeithio ar sut yr ydym yn cyflawni ein rhaglen waith a'n hymateb i newidiadau yn ein hamgylchedd.

Rydym hefyd yn disgwyl y bydd Bil Menter Llywodraeth y DU yn dod â ni i gwmpas y Cod Rheoleiddwyr a'r Targed Effaith Busnes . Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyflwyno asesiadau effaith ar gyfer mesurau cymhwyso i'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio, ac i nodi mesurau anghymwysol. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i orfod cael hysbysiad ac asesiadau ôl-weithredol o fesurau a gyflwynwyd ers mis Mai 2015.

Rydym yn gweithio gydag Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) Llywodraeth y DU a'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio i ddeall beth fydd y gofynion hyn yn ei olygu'n ymarferol, a bydd angen eu cynnwys yn ein portffolio. Rydym wedi darparu ar gyfer y gwaith hwn wrth gynllunio ein hadnoddau, ond os bydd angen i ni wneud newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth honno, gallai hynny effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i ni ar gyfer gwaith arall.

Byddwn yn hysbysu ein rhanddeiliaid os teimlwn fod angen newid ein cynlluniau'n sylweddol yn ystod 2016-17.

1.9 Ymatebion i'n hymgyngoriad ar ein blaenraglen ddrafft

Fe wnaethom ymgynghori ar ein blaenraglen ddrafft ym mis Chwefror 2016. Derbyniom ddeg ymateb ysgrifenedig ffurfiol. Cawsom hefyd adborth pellach gan rhanddeiliaid drwy drafodaethau a gawsom gyda hwy.

Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebion yn gefnogol i'n rhaglen waith. Gofynnodd rai ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynglŷn â:

- ein dull cyffredinol ar gyfer rheoleiddio; a
- rhaglenni neu ddarnau o waith penodol.

Lle roeddem yn gallu darparu rhagor o eglurder yn ein blaenraglen derfynol, rydym wedi gwneud hynny. Er enghraifft, rydym wedi:

- dangos yn gliriach sut yr ydym yn rhoi ystyriaeth i'r fframwaith polisi gwahanol sy'n bodoli yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru;
- ailadrodd y bydd gwahanol agweddau ein gwaith ar drwyddedau yn dod ynghyd ac yn cael eu cydlynu mewn prosiect trwyddedu sy'n rhedeg trwy ein rhaglenni; ac
- enwi'n benodol y Darparwr Seilwaith ar gyfer Twnnel Thames Tideway, sef 'Tideway'.


Byddwn hefyd yn ystyried argymhellion ar gyfer sut yr ydym yn mynd i'r afael â'n gwaith a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ystod 2016-17. Er enghraifft, byddwn yn:

- rhoi mwy o eglurder ynglŷn ag amseriad darnau penodol o waith cyn i ni eu cyflawni yn ystod y flwyddyn; ac
- ystyried lle bo hynny'n briodol geisio sylwadau a chwestiynau gan y sector drwy fecanwaith megis y farchnad syniadau, a welwyd i fod yn ddull llwyddiannus iawn o ymgysylltu.

Ar gyfer pwyntiau mwy cymhleth neu fanwl, byddwn yn trafod y rhain gyda'r ymatebwyr a'u cododd. Byddwn yn ystyried sut yr ydym yn rhoi ystyriaeth i'w pwyntiau yn fwy cyffredinol wrth i ni gyflawni ein rhaglen waith dros y flwyddyn i ddod yn ein trafodaethau gyda'n rhanddeiliaid ehangach.

1.10 Ein rhaglen waith

Bwriadwn gynnal y rhaglenni cydgysylltiedig canlynol i gyflawni ein strategaeth. Mae tudalennau 15 i 17 yn nodi'r dyddiadau allweddol ar gyfer ein holl raglenni. Ar dudalennau 23 i 24 rydym yn disgrifio pob rhaglen a'r hyn yr ydym yn anelu i'w gyflawni.



2. Dyddiadau allweddol

Rhaglen Ofwat	Ebrill hyd Mehefin 2016	Gorffennaf hyd Medi 2016	Hydref hyd Rhagfyr 2016	Ionawr hyd Mawrth 2017
Strategaeth a Chynllunio	Cyhoeddi cynllun busnes pum mlynedd ar gyfer 2016-17 hyd 2020-21 Ofwat.	Sefydlu panel cwsmeriaid er mwyn helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cynnwys safbwynt y cwsmer yn fwy effeithiol yn ein holl waith. Cyhoeddi dangosfwrdd chwarterol Ofwat.	Dechrau ymgysylltiad sector-gyfan ar drin a rheoli data cwsmeriaid. Dechrau ymgysylltiad sector-gyfan ar nodi a rhoi ystyriaeth i anghenion cwsmeriaid y dyfodol. Cyhoeddi ein hasesiad o berfformiad y sector yn erbyn y fframwaith asesu sector dŵr diweddaraf a arweinir gan Water UK ('dangosfwrdd'). Cyhoeddi blaenraglen ddrafft Ofwat ar gyfer 2017-18. Cyhoeddi dangosfwrdd chwarterol Ofwat.	Cyhoeddi blaenraglen derfynol Ofwat ar gyfer 2017-18. Cyhoeddi dangosfwrdd chwarterol Ofwat.
Gwaith achos	Cyhoeddi canllawiau terfynol ac ymgysylltu'r sector dŵr ar ein hagwedd tuag at gyfraith cystadleuaeth ac, yn arbennig, yr heriau o'r farchnad manwerthu newydd ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys yn Lloegr. Agor y broses gais i fusnesau wneud cais i ddod yn drwyddedig fel Deiliaid	Cynhyrchu dogfen gwmpasu ar gyfer y cod ar gyfer cytundebau hunan-osod, fel y nodir yn Neddf Dŵr 2014.		Gweithredu cronfa ddata newydd o ymholiadau cwsmeriaid ac anghydfodau a derbynnir gan Ofwat er mwyn helpu i ganfod tueddiadau a materion a allai fod angen eu hymchwilio neu sy'n gofyn am weithredu. Adolygu marchnadoedd y sector ac ystyried a fyddai ymyrraeth bellach, o bosibl drwy astudiaeth marchnad

Rhaglen Ofwat	Ebrill hyd Mehefin 2016	Gorffennaf hyd Medi 2016	Hydref hyd Rhagfyr 2016	Ionawr hyd Mawrth 2017
	Trwydded Cyflenwi Dŵr a Charthffosiaeth (WSSL) ar gyfer y farchnad manwerthu gystadleuol newydd ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys yn Lloegr - ac ar gyfer cwsmeriaid unigol i hunangyflenwi â gwasanaethau manwerthu.			ffurfiol, yn gwella canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid mewn marchnad dŵr a dŵr gwastraff darged.
Cyllid a Threfn Lywodraethu	Ymgysylltu'r sector ac eraill mewn gwaith i foderneiddio trwyddedau cwmnïau dŵr ^a .	Cyhoeddi canllawiau cyfrifyddu rheoleiddio diwygiedig er mwyn adlewyrchu arfer da a datgelu gwybodaeth i gefnogi rheoleiddiad a datblygiad marchnadoedd. Cynnal adolygiad wedi'i dargedu sy'n ymwneud â pharodrwydd cyfranogwyr y farchnad ar gyfer agor y farchnad manwerthu i gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr - i gefnogi sicrwydd Ofwat o barodrwydd cyfranogwyr y farchnad.	Asesu cwmnïau monopoli yn erbyn y fframwaith monitro cwmnïau - wedi iddynt gyhoeddi eu gwybodaeth perfformiad blynyddol ar gyfer 2015-16. Cyhoeddi ein sylwebaeth lawn gyntaf ar wytnwch ariannol y sector dŵr.	Cychwyn a chynnal adolygiad wedi'i dargedu o faes gwasanaeth. Ymgynghori ar egwyddorion arweinyddiaeth bwrdd, tryloywder a llywodraethu diwygiedig.
Agor y Farchnad Manwerthu	Cyhoeddi'r cod ymarfer diogelu cwsmeriaid yn nodi safonau gofynnol ymddygiad tuag at gwsmeriaid yn y farchnad newydd - ac ymgynghori ar y newidiadau canlyniadol ar gyfer		Ymgynghori'n ffurfiol ar y prif godau marchnad - y Cod Cyfanwerthu-Manwerthu a Chod Trefniadau'r Farchnad.	Anfon llythyr sicrwydd terfynol at Lywodraeth y DU ynglŷn â pharodrwydd Ofwat a chyfranogwyr y farchnad ar gyfer agor y farchnad.

Rhaglen Ofwat	Ebrill hyd Mehefin 2016	Gorffennaf hyd Medi 2016	Hydref hyd Rhagfyr 2016	Ionawr hyd Mawrth 2017
	<p>Offerynnau Penodi cwmnïau o ganlyniad i agor y farchnad.</p>		<p>Sefydlu Panel Codau Marchnad parhaus. Anfon llythyr sicrwydd interim at Lywodraeth y DU ynglŷn â pharodrwydd Ofwat a chyfranogwyr y farchnad ar gyfer agor y farchnad.</p>	

Rhaglen Ofwat	Ebrill hyd Mehefin 2016	Gorffennaf hyd Medi 2016	Hydref hyd Rhagfyr 2016	Ionawr hyd Mawrth 2017
Water 2020	<p>Cyhoeddi ein penderfyniadau ar ddyfyniad y fframwaith rheoleiddio ar gyfer marchnadoedd cyfanwerthu ac adolygiad prisiau 2019 (PR19) - ac ymgysylltu â'r sector ar ddiwygio trwyddedau sydd ei angen er mwyn gweithredu ein penderfyniadau^a.</p> <p>Cyhoeddi'r gofynion dull a thabl terfynol ar gyfer cynnal ein hadolygiad o reolaeth prisiau pob cwmni monopoli ar gyfer gwasanaethau manwerthu dibreswyl yng Nghymru a Lloegr.</p> <p>Cyhoeddi datganiad polisi ar ymgysylltu â chwsmeriaid ar gyfer PR19, yn nodi canlyniadau ar yr egwyddorion yr ymgynghorwyd arnynt yn ein dogfen Rhagfyr 2015.</p> <p>Cwblhau cam cyntaf ein model cyflenwi ar gyfer PR19.</p> <p>Ymgynghori ar reolau ar gyfer cwmnïau monopoli o ran codi tâl am gysylltiadau newydd.</p>	<p>Cyhoeddi ein casgliadau cychwynnol a therfynol ein hadolygiad o fanteision ymestyn dewis cyflenwr gwasanaethau manwerthu dŵr a dŵr gwastraff i gwsmeriaid preswyl.</p> <p>Cyhoeddi rheolau ar gyfer cwmnïau monopoli o ran codi tâl am wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol.</p> <p>Cyhoeddi ein penderfyniadau drafft ar reolaeth prisiau pob cwmni monopoli ar gyfer gwasanaethau manwerthu dibreswyl yng Nghymru a Lloegr</p>	<p>Cyhoeddi ymgynghoriadau pellach i ddatblygu gwaith er mwyn gweithredu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer marchnadoedd cyfanwerthu a PR19.</p> <p>Yn dilyn ymgysylltu â'r sector, ymgynghori o dan adran 13 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 i newid trwyddedau cwmnïau monopoli i adlewyrchu ein penderfyniadau ar y fframwaith rheoleiddio ar gyfer marchnadoedd cyfanwerthu a PR19^b.</p> <p>Cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar reolaeth prisiau pob cwmni monopoli ar gyfer gwasanaethau manwerthu dibreswyl yng Nghymru a Lloegr.</p> <p>Cyhoeddi rheolau ar gyfer cwmnïau monopoli o ran codi tâl am gysylltiadau newydd.</p>	
Thames Tideway	<p>Cyhoeddi llyfr rheolau yn nodi sut y bydd trwydded y Darparwr Seilwaith yn gweithio.</p>	<p>Cynnal digwyddiad gyda rhanddeiliaid i egluro trwydded y Darparwr Seilwaith a'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Twannel Thames Tideway.</p>		

Rhaglen Ofwat	Ebrill hyd Mehefin 2016	Gorffennaf hyd Medi 2016	Hydref hyd Rhagfyr 2016	Ionawr hyd Mawrth 2017
Trawsnewid Busnes	Lansio ein strategaeth brand cyflogwr, adnoddau a denu newydd. Cynllunio a dechrau gweithredu ein cynnig dysgu a datblygu ar gyfer cyflogeion. Cwblhau newidiadau i'n swyddfeydd yn Llundain er mwyn lleihau'r gofod yr ydym yn ei feddiannu.	Gweithredu ein cynllun a model gweithlu strategol i ysgogi ein hadnoddau a llywio ein model cyflenwi ar gyfer PR19.	Adolygu ein dull ar gyfer telathrebu er mwyn cefnogi ein dull hyblyg o weithio a rhoi gwell gwerth am arian. Gweithredu ein system adnoddau dynol newydd. Symud mwy o'n gwasanaethau TG i system seiliedig ar Gwmwl ac ymchwilio rhannu gwasanaethau.	Cwblhau gweithrediad ein rhaglen datblygu rheolwyr. Dechrau cynllunio'r systemau sydd eu hangen i gefnogi PR19.
Cydymffurfiad a Sicrwydd ^b	Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Ofwat.			

Nodiadau

- Daw gwahanol agweddau ein gwaith ar drwyddedau ynghyd a chânt eu cydlynu mewn prosiect trwyddedu sy'n rhedeg trwy ein rhaglenni.
- Mae'r dyddiadau allweddol eraill ar gyfer y rhaglen hon yn gyfuniad o ofynion adrodd mewnol ac allanol a bodloni amserlenni (er enghraifft, archwiliadau mewnol) nad ydym wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon.

3. Rhaglenni

3.1 Strategaeth a Chynllunio

Beth ydyw

Diben y rhaglen hon yw nodi beth fyddwn yn ei wneud i:

- weithio gyda'r sector i feithrin a chynnal ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff; a
- sicrhau bod Ofwat yn reoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo ac a berchir, gan weithio'n flaengar.

Mae'n cynnwys prosiectau yn y meysydd canlynol.

- Asesu cynnydd tuag at gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y sector a'r weledigaeth ar gyfer Ofwat.
- Nodi risg strategol, casglu gwybodaeth a safbwyntiau o bob rhan o Ofwat a'r sector.
- Datblygu ein dealltwriaeth ni a dealltwriaeth y sector o hunaniaeth ac anghenion cwsmeriaid dŵr y dyfodol - a chasglu gwybodaeth ynglŷn â'n rôl mewn gwneud yn siŵr bod cwsmeriaid y dyfodol yn chwarae rhan amlwg mewn darpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cynaliadwy. Gall hyn fwydo i ragor o waith yn y dyfodol.
- Gan adeiladu ar lwyddiant adolygiad prisiau 2014, datblygu fframwaith lle gallwn ddal llais y cwsmer er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r materion mwyaf pwysig a strategol sy'n wynebu cwsmeriaid, a gwreiddio'r diwylliant o ddefnyddio llais y cwsmer wrth ddatblygu polisiau yn ein rhaglen waith (yn cynnwys, ond nid yn unig, wrth ddatblygu'r fframwaith ar gyfer adolygiad prisiau 2019).
- Datblygu ein dealltwriaeth ni a dealltwriaeth y sector o faterion yn ymwneud â fforddiadwyedd a breguster cwsmeriaid. Gallai hyn arwain at ragor o waith yn y dyfodol.
- Datblygu ein dull ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Datblygu ein Cynllun Arloesedd fel sy'n ofynnol gan gynllun cynhyrchiant Llywodraeth y DU.

- Deall goblygiadau cael ein cynnwys yn y Cod Rheoleiddwyr a'r Bil Menter sydd i ddod yn fuan o ran y ffordd yr ydym yn gweithio a sicrhau bod hyn yn cael ei ffactorio'n gywir i'n rhaglen waith a'n cynllunio adnoddau.
- Datblygu dull hirdymor, cadarn ar gyfer ein cynllunio busnes mewnol a chynllunio rhaglen sy'n galluogi ac yn cefnogi blaenoriaethu.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio'n allanol gyda rhanddeiliaid. Mae hefyd yn cynnwys ein cyfraniad i UKRN a chyd-drefniant ein gwaith gydag UKRN.

Byddwn yn parhau i gyflawni'r rhaglen hon wedi diwedd 2016-17.

Beth fyddwn yn ei gyflawni
Gwell dealltwriaeth o'r potensial i gwsmeriaid chwarae rôl mwy ymgysylltiedig a bod wedi grymuso yn narpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Eglurder ar faterion y mae angen i'r sector fynd i'r afael â hwy er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, ac unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer y ffordd yr ydym yn rheoleiddio'r sector. Caiff hyn ei gefnogi gan y fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i gynnwys barn cwsmeriaid yn y penderfyniadau a wnawn.
Dealltwriaeth o wahanol ddimensiynau fforddiadwyedd a breguster cwsmeriaid ac unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer sut yr ydym yn rheoleiddio'r sector.
Dealltwriaeth o sut y mae'r sector yn trin ac yn rheoli data cwsmeriaid, y manteision a'r risgiau, a goblygiadau ar gyfer y sector a sut yr ydym yn ei reoleiddio.
Canolbwyntio ar gyfathrebu clir a hygyrch, a gwneud yn siŵr bod gennym berthynas effeithiol gyda'n rhanddeiliaid.
Gwell dealltwriaeth o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • y cynnydd y mae'r sector yn ei wneud mewn meithrin ymddiriedaeth a hyder; • y cynnydd yr ydym ni'n ei wneud tuag at ein gweledigaeth ar gyfer Ofwat; • ein cyfraniad o ran rhoi budd i gwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach; a • rôl a chwmpas arloesedd yn y sector.
Cyfraniad effeithlon ac effeithiol gan Ofwat i waith UKRN, sy'n helpu i gyflawni ei amcanion.
Dull clir, cadarn a hirdymor ar gyfer cynllunio ein gwaith sy'n dryloyw ac sy'n gwneud i rhanddeiliaid ymddiried ynom.
Dulliau ar gyfer rheoleiddio sy'n adlewyrchu arfer rheoleiddio gorau.

3.2 Gwaith achos

Beth ydyw

Mae ein gwaith achos yn ymwneud â defnydd nifer o'n hoffer rheoleiddio, yn arbennig:

- gorfodi rhwymedigaethau cwmnïau dŵr o dan ddeddfwriaeth sector-benodol, ac mewn trwyddedau a chyfraith cystadleuaeth a defnyddwyr gyffredinol.
- datrys anghydfodau;
- penderfynu ar delerau pris a rhai sydd ddim yn rhai pris mewn rhai contractau;
- dyroddi trwyddedau, yn cynnwys trwyddedau cyflenwi dŵr a'r Trwyddedau Cyflenwi dŵr a Charthffosiaeth newydd;
- caniatáu penodiadau ac amrywiadau newydd; a
- chynnal astudiaethau marchnad.

Mae nifer o'n hachosion yn effeithio'n uniongyrchol ar brofiad cwsmeriaid o'r sector. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr gael gwasanaethau yn gywir y tro cyntaf, a byddwn yn eu hannog i wneud hynny - a chymryd perchnogaeth o'r berthynas gyda'u cwsmeriaid. Ond pan fyddant yn methu, rydym yn barod drwy ein rhaglen gwaith achos i ddarparu rhwyd ddiogelwch bwysig i gwsmeriaid, sy'n hollbwysig ar gyfer eu hymddiriedaeth a'u hyder yn y sector.

Bydd gan ein gwaith achos rôl arbennig o bwysig i'w chwarae mewn gwneud yn siŵr bod agor y farchnad manwerthu i gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr i gystadleuaeth fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Dŵr 2014 yn effeithiol ac yn rhoi budd i gwsmeriaid. Bydd hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn helpu i gyflawni'r diwygiadau ymhellach i fyny'r gadwyn a ragwelir yn Neddf Dŵr 2014.

Yn ein [strategaeth gwaith achos](#) byddwn yn defnyddio'r offer a'r dewisiadau sydd ar gael i ni i sicrhau canlyniadau effeithiol – yn cynnwys sgysiau amserol gyda chwmnïau dŵr i ddatrys materion mewn ffyrdd sydd ddim yn llai boddhaol i gwsmeriaid, ond a allai fod yn gyflymach a llai beichus na gweithredu ffurfiol.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r rhaglen hon wedi diwedd 2016-17.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Byddwn yn sicrhau ein bod, yn ein holl waith achos, yn ei gwneud hi'n glir pam ein bod wedi gwneud ein penderfyniadau a beth yw goblygiadau ehangach y penderfyniadau hynny ar gyfer y sector. Yn y modd hwn, byddwn yn galluogi'r sector i ddysgu, a fydd yn helpu i osgoi gwaith achos diangen yn y dyfodol.

Penderfyniadau cadarn ac amserol ar achosion unigol.

Parhau i ganolbwyntio ar achosion strategol, a fydd yn rhoi'r budd mwyaf i gwsmeriaid nawr a dros yr hir dymor.

Sector sy'n deall yn fwy llawn ei rwymedigaethau o dan gyfraith cystadleuaeth gyffredinol, a goblygiadau'r rhain yng nghyd-destun agor y farchnad manwerthu i gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys yn Lloegr.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Ystyried a yw'r holl farchnadoedd sydd gennym yn y sector yn gweithredu'n effeithiol ac a oes achos dros ymchwiliad pellach, o bosibl drwy astudiaeth marchnad ffurfiol neu ryw ymyrraeth arall.

3.3 Cyllid a Threfn Lywodraethu

Beth ydyw

Nod y rhaglen hon yw:

- annog sector sy'n atebol i'w gwsmeriaid am ei berfformiad;
- herio'r sector i wella;
- datblygu ymhellach wytnwch y sector, yn cynnwys ei wytnwch corfforaethol ac ariannol;
- ymdrin ag uno cwmnïau, newid mewn perchnogaeth cwmnïau ac unrhyw benderfyniadau interim rheolaethau prisiau cwmnïau monopoli, lle bo hynny'n briodol; a
- moderneiddio a symleiddio amodau trwydded a sicrhau eu bod yn gyson rhwng cwmnïau, lle bo hynny'n briodol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- adrodd ar reoleiddio - yn cynnwys adrodd ar berfformiad, sicrwydd a chanllawiau cyfrifyddu rheoleiddiol;
- annog meincnodi cwmnïau ac ymgysylltiad rhanddeiliaid ar eu perfformiad;
- casglu gwybodaeth ac asesu pan nad yw cwmnïau wedi rheoli eu risgiau - a chamu i mewn (lle bo angen) er mwyn tynnu sylw at unrhyw faterion;
- ein gwaith ar arweinyddiaeth bwrdd, tryloywder a threfn lywodraethu, monitro ariannol a datblygu gwytnwch ar gyfer cyfyngder ariannol;
- ein hagwedd tuag at uno cwmnïau a gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), newidiadau mewn perchnogaeth cwmnïau ac unrhyw benderfyniadau interim o ran rheolaethau prisiau; ac
- adolygu trwyddedau cwmnïau dŵr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn syml, cyson a chefnogol i ddatblygiad marchnadoedd a rheoleiddio effeithiol.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r rhaglen hon wedi diwedd 2016-17.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Bydd y rhaglen hon yn ein helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder bod cwmnïau dŵr yn:

- cyflawni yn erbyn eu rhwymedigaethau ac yn gweithredu i safonau uchel;
- cyflawni yn erbyn eu penderfyniadau terfynol adolygiad prisiau 2014;
- gwytnwch ariannol;
- gweithredu i safon uchel o arweinyddiaeth bwrdd, tryloywder a threfn lywodraethu; a
- rhoi sicrwydd priodol ar bob un o'r uchod.

Wedi i'r farchnad manwerthu newydd ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys yn Lloegr agor ym mis Ebrill 2017, bydd y rhaglen hon hefyd yn monitro'r farchnad newydd a darparwyr gwasanaeth sy'n gweithredu ynddi.

Mae ymddiriedaeth a hyder yn dibynnu ar gynaliadwyedd a thryloywder ariannol cwmnïau dŵr rheoledig dros yr hirdymor. Bydd y rhaglen hon yn helpu i roi sicrwydd o sefydlogrwydd ariannol y sector a gwneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa dda i gamu i mewn fel rhwyd ddiogelwch pe bai methiant yn hyn o beth.

Mae'n debygol y bydd rhywfaint o newid perchnogaeth wrth i gwmnïau dŵr ymateb i'r canlynol:

- yr her o gyflawni rheolaethau prisiau yn ystod 2015-20.
- agor y farchnad manwerthu i gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ym mis Ebrill 2017; a
- gwybodaeth yr ydym wedi ei datgelu drwy adolygiad prisiau 2014 ac y byddwn yn parhau i'w datgelu wrth i ni ddatblygu - er enghraifft, drwy farchnadoedd ar gyfer gwasanaethau adnoddau dŵr a thriniaeth a gwaredu slwtsh newydd.

Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn defnyddio ein hoffer i sicrhau bod newid mewn perchnogaeth o fudd i gwsmeriaid, a chefnogi datblygiad marchnadoedd a rheoleiddio mwy effeithiol.

Adrodd rheoleiddiol sy'n:

- adlewyrchu'r modd y gwnaethom osod rheolaethau prisiau yn 2014;
- adlewyrchu natur newidiol y sector (Deddf Dŵr 2014); a
- darparu gwybodaeth ar gyfer gosod rheolaethau prisiau yn 2019.

Fframwaith sy'n annog arweinyddiaeth a threfn lywodraethu effeithiol o'r sector, lle mae byrddau'n gweithredu i safonau uchel, yn derbyn atebolrwydd llawn ac yn dryloyw.

Trwyddedau mwy clir ac unffurf sy'n:

- adlewyrchu'r modd yr ydym yn rheoleiddio ac yn siapio fframwaith deddfwriaethol y sector;
- seiliedig ar egwyddorion; ac sy'n
- darparu lefelau cyfatebol o ddiogelwch i'r holl gwsmeriaid.

Ac amgylchedd aeddfed sy'n creu dull adeiladol ar gyfer datblygu ac addasu trwyddedau.

3.4 Agor y Farchnad Manwerthu

Beth ydyw

Ar hyn o bryd dim ond nifer cyfyngedig o gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus ar draws Cymru a Lloegr all ddewis eu manwerthwr. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan eu cwmnïau dŵr yn unig neu dŵr a dŵr gwastraff monopoli. Bydd Deddf Dŵr 2014 yn caniatáu i 1.2 miliwn o gwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr – a chwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys yng Nghymru - i ddewis eu cyflenwr gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o fis Ebrill 2017. Mae gwasanaethau manwerthu yn cynnwys pethau fel bilio a gwasanaeth cwsmeriaid.

Y cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cystadleuol newydd yn Lloegr fydd marchnad dŵr manwerthol fwyaf y byd a rhagwelir y bydd yn rhoi gwerth tua £200 miliwn o fudd cyffredinol i gwsmeriaid ac economi'r DU. Yn ogystal, mae ymchwil yn dangos bod saith allan o bob deg cwsmer busnes eisiau'r dewis hwn. Bydd cwsmeriaid yn gallu siopa o gwmpas a newid i'r fargen orau. Bydd gan fuddsoddwyr a manwerthwyr gyfleodd newydd ar gyfer twf. A bydd yr amgylchedd yn elwa o gael cwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau dŵr effeithlon newydd. Mae cwsmeriaid eisoes yn elwa gan farchnad debyg yn yr Alban.

Mae gwaith i sefydlu'r farchnad yn cael ei wneud gan Open Water, un rhaglen waith sy'n dwyn ynghyd yr holl sefydliadau allweddol i gynllunio a chreu marchnad newydd. Mae'r rhain yn cynnwys Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Ofwat a Market Operator Services Limited (MOSL) – cwmni preifat ym mherchnogaeth cyfranogwyr marchnad sy'n aelodau. Mae agor y farchnad newydd yn her gymhleth, ond mae ar y llwybr cywir i agor ym mis Ebrill 2017. Mae'r [cynllun integredig ar gyfer agor y farchnad](#) ar gael ar ein gwefan..

Bydd rhaglen Agor y Farchnad Manwerthu yn cyflawni cyfrifoldebau Ofwat ar gyfer sefydlu'r farchnad - a'r trefniadau angenrheidiol i ni reoleiddio'r farchnad wedi iddi agor. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- trefniadau i ganiatáu i gwmnïau newydd gael eu trwyddedu i gyflenwi gwasanaethau manwerthu - neu i gwsmeriaid unigol 'hunangyflewi' gyda gwasanaethau manwerthu;
- gwneud yn siŵr bod cwsmeriaid wedi'u diogelu'n effeithiol - yn cynnwys y cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus hynny yng Nghymru na fydd yn gallu newid eu cyflenwr; a
- gwneud yn siŵr y caniateir i fanwerthwyr gystadlu'n deg â'i gilydd er mwyn ennill busnes a rhoi manteision i gwsmeriaid ('trin pawb yn yr un modd').

Gall y rhaglen hon helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn dŵr ar gyfer cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol. Wrth agor marchnad newydd bydd y rhaglen yn annog darparwyr gwasanaeth dŵr a dŵr gwastraff i wneud y peth iawn ar gyfer eu cwsmeriaid, y gymdeithas ehangach a'r amgylchedd heddiw ac yn y dyfodol.

Bydd hyn yn cynorthwyo cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys i gael y gwasanaethau y maent eu heisiau ac yn barod i dalu amdanynt, ar y lefel diogelwch a dibynadwyedd y maent eisiau, a'u darparu mewn ffyrdd cynaliadwy yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Bydd hefyd yn sicrhau y caiff y sector ei weld fel cyfle buddsoddi cynaliadwy.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Gyda'n partneriaid byddwn yn cynllunio, datblygu a gweithredu trefniadau rheoleiddio i gefnogi marchnad manwerthu newydd ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys, gan ategu gwaith Open Water a chyfranogwyr y farchnad.

3.5 Water 2020

Beth ydyw

Yn yr un modd â'r rhaglen Agor y Farchnad Manwerthu, mae ein rhaglen Water 2020 yn chwarae rhan bwysig mewn meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn dŵr ar gyfer y cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol. Wrth ddatblygu marchnadoedd a diwygio ein dull rheoleiddio, bydd yn llywio, galluogi ac yn cymell cwmnïau dŵr i wneud y peth iawn ar gyfer eu cwsmeriaid, y gymdeithas ehangach a'r amgylchedd heddiw ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu bod cwsmeriaid yn cael y gwasanaethau y maent eu heisiau ac yn barod i dalu amdanynt, ar y lefel diogelwch a dibynadwyedd y maent eisiau, a'u darparu mewn ffyrdd cynaliadwy yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Bydd hefyd yn sicrhau y caiff y sector ei weld fel cyfle buddsoddi cynaliadwy.

Drwy weithrediad Deddf Dŵr 2014 a rheolaethau prisiau yn y dyfodol, bydd y sector dŵr yn gweld newidiadau sylweddol dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi cyfleoedd gwirioneddol i wella sut y mae darparwyr yn cyflenwi gwasanaethau i gwsmeriaid ac ar gyfer yr amgylchedd dros y tymor hwy. Drwy ddefnyddio ein holl offer rheoleiddio ac ystyried pecyn eang o newidiadau, gallwn helpu i sicrhau bod y gallu gan y sector a'i fod yn parhau i gael ei ysgogi i ddarparu'r gwasanaeth a'r prisiau gorau i gwsmeriaid.

Bydd y rhaglen hon yn cyflawni - ar y cyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill - y newidiadau rheoleiddio sydd eu hangen ar wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol i gynyddu'r cwmpas ar gyfer ysgogiadau i gyflenwi'n effeithiol ac arloesedd.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod y fframwaith rheoleiddio yn hwyluso'r newidiadau hyn ac yn parhau i ddiogelu cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach, bydd y rhaglen hefyd yn datblygu'r fframwaith ar gyfer proses gosod prisiau gymesur ac wedi'i thargedu ar gyfer adolygiad prisiau 2019 sy'n adeiladu ar lwyddiant adolygiad prisiau 2014. Bydd y fframwaith newydd yn:

- adeiladu ar yr hyn yr ydym ni, ac eraill, wedi ei ddysgu gan adolygiad prisiau 2014;
- parhau i ysgogi cwmnïau i roi ymgysylltu â'u cwsmeriaid a'r canlyniadau y maent eu heisiau wrth galon eu busnesau;
- galluogi'r darparwyr hyn i ddarparu gwasanaethau y mae cwsmeriaid eu heisiau mewn ffordd effeithlon am brisiau y gallant eu fforddio;
- bod yn gyson â'n hegwyddorion parhaus ar gyfer pennu terfynau prisiau;
- cefnogi datblygiad mecanweithiau marchnad lle bo hynny'n briodol;
- rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau statudol cwmnïau o ran yr amgylchedd ac ansawdd; a
- rhoi ystyriaeth i'n dyletswyddau statudol a'r blaenoriaethau ac amcanion strategol yr ydym yn eu derbyn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys unrhyw flaenoriaethau ac amcanion strategol y mae'r naill Lywodraeth yn eu cyhoeddi yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae ein rhaglen Water 2020 yn ystyried goblygiadau cyflwyno marchnad manwerthu gystadleuol ar gyfer cwsmeriaid busnes, elusennau a sector cyhoeddus cymwys yn Lloegr a'n dull ar gyfer rheoleiddio'r farchnad manwerthu yng Nghymru, sy'n parhau'n fonopoli i raddau helaeth.

Ym mis Tachwedd 2015, gofynnodd Llywodraeth y DU i ni gynnal adolygiad o'r manteision o ganiatáu i gwsmeriaid preswyl cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ddewis eu manwerthwr dŵr a dŵr gwastraff. Mae rhaglen Water 2020 yn cynnwys y gwaith hwn.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r rhaglen hon wedi diwedd 2016-17.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Gyda'n partneriaid byddwn yn:

- cyflawni cynllun y marchnadoedd yn y gadwyn werth dŵr a dŵr gwastraff fel sy'n briodol;
- penderfynu ar y rheolaethau prisiau ar gyfer gwasanaethau manwerthu dibreswyl y tu hwnt i 2016-17;
- datblygu ymhellach y fframwaith ar gyfer penderfynu ar y rheolaethau prisiau ar gyfer pob darparwr gwasanaeth penodedig yn 2019;
- annog cwmnïau y mae eu prisiau wedi'u rheoli i wella ymhellach lefel eu hymgysylltiad â'u cwsmeriaid ac i ddeall ac ymateb i ddymuniadau ac anghenion gwahanol grwpiau cwsmeriaid.
- datblygu dull codi tâl i gefnogi trefniadau marchnad ymhellach i fyny'r gadwyn a'r trefniadau codi tâl angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthu a manwerthu;
- cyfrannu at unrhyw ddiwygiadau gan lywodraeth ar gyfer trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru a Lloegr; a
- chynnal adolygiad o fudd a chostau ymestyn dewis manwerthwr i gwsmeriaid preswyl cwmnïau y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

Byddwn hefyd yn penderfynu sut un fydd ein model cyflenwi ar gyfer adolygiad prisiau 2019, gan wneud yn siŵr bod y galluogwyr hollbwysig a nodir gennym ar gyfer y model yn cael eu cyflawni drwy ein rhaglen Trawsnewid Busnes.

3.6 Thames Tideway

Beth ydyw

Mae'r [Twnnel Thames Tideway](#) yn brosiect mawr a chymhleth sydd wedi'i fwriadu i leihau gorlif carthffosiaeth heb ei drin i Afon Tafwys. Mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi'r prosiect fel ateb gwerth gorau i leihau gollyngiad carthffosiaeth a bodloni gofynion cyfreithiol Ewropeaidd.

Ein rôl yw [rheoleiddio'r Darparwr Seilwaith](#) – Bazalgette Tunnel Limited (a adnabyddir hefyd fel 'Tideway') – sy'n gyfrifol am ariannu, adeiladu a gweithredu Twnnel Thames Tideway, a gwneud hynny mewn modd sy'n rhoi canlyniadau gwerth am arian ar gyfer cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Thames Water a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y modd yr ydym yn rheoleiddio wedi ei ddeall yn dda, sy'n bwysig ar gyfer cefnogi cyflawniad a chyllido y Twnnel. Byddwn hefyd yn gweithio gydag eraill, yn cynnwys aelodau UKRN a Llywodraeth y DU i sicrhau bod gwersi o'r profiad o gyflawni Twnnel Thames Tideway yn cael eu deall a'u rhannu fel sy'n briodol.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r rhaglen hon wedi diwedd 2016-17.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Mae Tideway a Thames Water yn atebol am y rhwymedigaethau penodol y mae gofyn i'r naill a'r llall eu cyflawni ar gyfer Twnnel Thames Tideway - ac am ddarparu sicrwydd eu bod yn gwneud hynny. Ein rôl yw gwneud yn siŵr:

- ei fod yn cael ei gwblhau am y gwerth gorau am arian ar gyfer cwsmeriaid;
- ei fod yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n rhoi'r budd gorau i gwsmeriaid drwy brosesau cystadleuol;
- ei fod yn parhau'n bosibl i'w ariannu;
- bod ymgysylltiad effeithiol yn digwydd gyda'r holl randdeiliaid;
- y galluogir Tideway i weithredu o fewn y fframwaith rheoleiddio yr ydym wedi ei sefydlu; a
- bod Tideway a Thames Water yn cael eu dal yn atebol i gwsmeriaid.

Bydd y rhaglen hefyd yn helpu i roi gwell canlyniadau i gwsmeriaid ledled Cymru a Lloegr drwy:

- gynnig ffyrdd newydd i gyflawni prosiectau seilwaith mawr a chymhleth; a
- datblygu dulliau newydd ar gyfer rheoleiddio prosiectau mawr cymhleth.

3.7 Trawsnewid Busnes

Beth ydyw

Mae cyflawni ein strategaeth newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni herio ein hunain yn gyson er mwyn sicrhau bod ein rheoleiddio mor effeithlon ac effeithiol ag y gall fod. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni wneud newidiadau sylweddol i'r modd yr ydym yn gweithio. Ein nod yw dod yn sefydliad dysgu, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau - yn cynnwys, yn hollbwysig, cael y gwerth gorau posibl o sgiliau a phrofiadau ein holl bobl, a gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y sector ac ar gyfer Ofwat.

Mae cwmpas y rhaglen hon yn cynnwys y newidiadau a'r ffyrdd newydd o weithio sydd eu hangen arnom i wreiddio a chyflawni ein gweledigaeth fel rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo ac a berchir, gan weithio'n flaengar. Mae'n canolbwyntio ar wneud Ofwat yn lle gwych i weithio, ac ar gynyddu ein hystwyther a'n hyblygrwydd. Bydd yn sicrhau bod gennym y systemau, prosesau, strwythurau, cyfleusterau a'r dechnoleg i gefnogi ein holl bobl i wneud y cyfraniad gorau y gallant er mwyn rhoi budd i gwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas.

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys gwaith i:

- ddatblygu ein pobl;
- datblygu a gwreiddio rheolaeth rhaglen a phrosiect yn effeithlon ac effeithiol;
- gwreiddio ac adolygu strwythurau, systemau a phrosesau llywodraethu; a
- gweithredu seilwaith galluogi i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Sefydliad:

- sy'n ddeinamig, hyblyg, ymatebol, wedi'i arwain a'i reoli'n dda, ac sy'n cefnogi gweithio seiliedig ar raglen effeithiol gan ddefnyddio gwahanol unigolion a sgiliau;
- sydd â diwylliant cadarnhaol wedi'i gefnogi gan dechnoleg a seilwaith priodol, ac sy'n lle gwych i weithio a datblygu;
- sy'n gwneud defnydd strategol gwych o adnoddau ac yn dangos gwerth am arian;
- sydd â phrosesau cydymffurfio a threfn lywodraethu effeithiol a chymesur;
- sy'n dryloyw ac sy'n deall y wybodaeth y mae'n ei dal;
- sydd â phobl â'r sgiliau, profiad, gwerthoedd ac ymddygiad cywir i gefnogi datblygiad ein strategaeth;
- sy'n defnyddio adnoddau allanol i ategu ein pobl ein hunain, gan ganiatáu i ni ddefnyddio'r sgiliau a'r arbenigedd y mae gennym fynediad atynt mewn modd effeithlon ac ystyryth;
- sy'n sefydliad dysgu sy'n ceisio gwella yn barhaus;
- sy'n gwerthfawrogi a chefnogi rheolaeth ragorol drwy raglenni, prosiectau a phobl; ac sy'n
- gwerthfawrogi ac yn cefnogi arweinyddiaeth drwy'r sefydliad yn gyfan.

3.8 Cydymffurfiaid a Sicrwydd

Beth ydyw

Bydd y rhaglen hon yn gwreiddio ac yn monitro'r newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno drwy ein rhaglenni Strategaeth a Chynllunio a Trawsnewid Busnes. Bydd yn helpu i wella sut yr ydym yn rhoi sicrwydd i'n hunain ac i eraill ein bod yn cydymffurfio â'n polisiau ein hunain a gofynion allanol. Bydd hefyd yn ein helpu ni i ymateb i ddisgwyliadau rhanddeiliaid.

Mae'r rhaglen yn cynnwys prosiectau mewnol sy'n gwreiddio ac yn monitro nodweddion canlynol Ofwat:

- trefn lywodraethu corfforaethol a rhaglen;
- rheolaeth a threfn lywodraethu ariannol;
- trefn lywodraethu gwybodaeth a seilwaith;
- pobl;
- diwylliant o gydymffurfio a sicrwydd, tryloywder a dysgu; a

- dull ar gyfer cydymffurfio â gofynion y Cod Rheoleiddwyr, yn cynnwys cyflwyniadau i'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio.

Er y bydd ein rhaglen Strategaeth a Chynllunio yn penderfynu beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni a beth y byddwn yn ei wneud i gyflawni hynny, bydd ein rhaglen Cydymffurfiad a Sicrwydd yn dweud wrthym a ydym wedi gwneud yr hyn a ddywedwn y byddwn yn ei wneud a dweud wrthym sut y byddwn yn gwybod hyn.

Bydd y rhaglen hon hefyd yn sicrhau bod gennym y systemau a'r prosesau ar waith i wneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau ac yn adrodd ar ein cydymffurfio. Rydym yn datblygu nifer o'r systemau a'r prosesau hyn fel rhan o'n rhaglen Trawsnewid Busnes. Fodd bynnag, unwaith y byddant wedi cael eu datblygu cânt eu monitro a'u rheoli yn ein rhaglen Cydymffurfiad a Sicrwydd.

Beth fyddwn yn ei gyflawni

Bydd y rhaglen hon yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein strategaeth ac yn cyrraedd y safonau uchel sy'n ddisgwyliedig gan gorff cyhoeddus sydd â rôl arweinyddiaeth yn y sector. Bydd yn cynorthwyo i gynnal ymddiriedaeth ynom fel rheoleiddiwr effeithiol;

- sy'n cael ei redeg yn dda;
- sy'n gweithredu'n effeithlon ac yn rhoi gwerth am arian o fewn fframweithiau strategol a pholisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- sydd â diwylliant o ddysgu; ac
- sy'n lle ardderchog i'n pobl weithio.

Systemau, prosesau a gwybodaeth effeithlon ac effeithiol ar gyfer trefn lywodraethu a sicrwydd sy'n gwneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio - ac yn gallu dangos cydymffurfiad - gyda:

- ein polisïau;
- gofynion allanol; a
- disgwyliadau rhanddeiliaid o ran y modd yr ydym yn gweithredu.

Sefydliad sydd â diwylliant cryf o gydymffurfio a sicrwydd, ac un sy'n dysgu o'i lwyddiannau a'i gamgymeriadau.

Gwybodaeth strategol ac amserol i reolwyr Ofwat am:

- gyflawni rhaglenni'r sefydliad;
- gweithredu ffyrdd newydd o weithio; ac am
- wreiddio ein gwerthoedd a'n hymddygiad.

Trefn lywodraethu, rheoli rhaglenni a rheolaeth ariannol a phobl o ansawdd uchel i gefnogi rheolaeth effeithiol rhaglen waith Ofwat.

Dull effeithiol ar gyfer rheoli asedau gwybodaeth i gynnal uniondeb a diogelwch gwybodaeth a ddelir gennym.

Bodloni ein gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol, yn cynnwys agenda dadreoleiddio ac arloesedd Llywodraeth y DU, a Strategaeth Dŵr Llywodraeth Cymru, nodau lles a fframweithiau rheoli adnoddau naturiol.

4. Ariannu cyflawniad ein rhaglen waith

Ein nod yw cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol yn effeithiol ac effeithlon. Telir ein gofynion o ran gwariant gan ffioedd trwyddedau, a delir yn y pen draw gan gwsmeriaid yn eu biliau dŵr a dŵr gwastraff. Rydym yn adennill y ffioedd trwydded hyn gan y cwmnïau dŵr yr ydym yn eu rheoleiddio. Felly, rydym yn barhaus yn chwilio am welliannau yn y gwerth am arian yr ydym yn ei ddarparu ac arloesedd yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio.

Ein cyllideb graidd ar gyfer 2016-17 yw £22.492 miliwn – sy'n cyfateb i tua 0.2% o drosiant y sector. Ond bydd ein ffi trwyddedau net tua £3.4 miliwn i £3.8 miliwn yn is. Mae hyn oherwydd:

- ein bod yn dychwelyd nodyn credyd am arian nas gwariwyd o 2015-16 i gwmnïau dŵr, sy'n cynnwys arbedion effeithlonrwydd yr ydym wedi eu creu drwy leihau ein gofod swyddfeydd; ac
- ni fyddwn yn codi £0.5 miliwn o'n cyllideb ar gwmnïau ar ddechrau'r flwyddyn. Yn hytrach, rydym yn dal yr arian hwn yn ôl fel cronfa wrth gefn ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig ag Adolygiadau Barnwrol neu achosion Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Er nad ydym yn bwriadu ei ddefnyddio, rydym yn cadw'r hawl i godi'r swm ychwanegol ar gwmnïau yn ddiweddarach yn y flwyddyn os byddwn angen y gronfa wrth gefn hon.

Mae'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn 2015-16 wedi ein helpu i weithio mewn ffyrdd mwy hyblyg a lleihau ein costau. Bydd gwerth am arian yn ganolbwynt allweddol i ni dros y pum mlynedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r manteision gorau posibl i gwsmeriaid am yr adnoddau sydd gennym ar gael. Er enghraifft, ein nod yw:

- sicrhau arbedion yng nghostau ein gofod swyddfa yn Llundain yn ystod 2016-17;
- cyflawni arbedion drwy gael y cydbwysedd cywir rhwng adnoddau mewnol ac adnoddau allanol arbenigol;
- lleihau ein costau teithio a chynhaliaeth drwy wella ein seilwaith a'n ffyrdd o weithio; a
- datblygu model cyflenwi arloesol a chydweithredol i ddatblygu ein pobl a rheoli cyfnodau brig o ran llwyth gwaith.

Rydym hefyd yn parhau i geisio gwerth pellach am arian trwy ein haelodaeth o UKRN a datblygu ffyrdd cydweithredol a mwy hyblyg o weithio gyda rheoleiddwyr sectorau eraill. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar gamau ymarferol sydd eu hangen i rannu, darparu a chontractio gwasanaethau neu eu darparu ar y cyd. Mae hyn yn

cynnwys cynnal astudiaeth gyda rhai o aelodau UKRN yn edrych ar sut y gallem rannu gwasanaethau cefnogi yn y dyfodol.

Ffioedd trwydded eraill

Byddwn yn adennill cost rheoleiddio prosiect Twannel Thames Tideway ar wahân gan Tideway a Thames Water. Yr amcangyfrifiad ar gyfer y ffi arbennig hon yw £1 miliwn.

Rydym hefyd yn adennill cost rhaglen Agor y Farchnad Manwerthu gan ddarparwyr gwasanaeth ar wahân. Mae cost y rhaglen wedi ei neilltuo o'n gwaith rheoleiddio arall. Yr amcangyfrifiad ar gyfer y ffi arbennig hon yw £1.97 miliwn. Mae £0.42 miliwn o hyn yn ymwneud â gweithgaredd sydd wedi symud o 2015-16 i 2016-17, y byddwn yn ei ddychwelyd i gwmnïau dŵr drwy nodyn credyd ar gyfer 2015-16.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ein gweledigaeth yw bod yn reoleiddiwr economaidd blaenllaw, sy'n ennyn ymddiriedaeth a pharch, ac sy'n herio ein hunain ac eraill i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn dŵr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7533
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddad-incio Mawrth 2016

ISBN 978-1-910739-33-4

© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.